

paul emmanuel
fleece painting



paul emmanuel fleece painting

Oriel Myrddin Gallery · 8 January – 26 February 2011

Paul Emmanuel's most recent body of work *Fleece Paintings* are just that, unrefined sheep fleece onto which the artist has applied variously coloured oil paints.

The fleece is sourced locally from farms surrounding the artist's studio in the Brecon Beacons and the works themselves are named after each of these farms. The initial inspiration for these works came from the artist noticing scraps of matted fleece in the grass and caught in the barbed wire fencing enclosing the fields around the farm where he lives and works. These paintings are also inspired by the use of sheep marker; different colours daubed directly onto the animals back as a way of delineating one flock from another.

Emmanuel is also inspired by the working methods and lives of the farming community. Through his work he considers the role of the artist working and living amongst this community. But, whilst we could read the *Fleece Paintings* as responses to a particular place and its landscape, this would deny the complex tensions these paintings hold and indeed, the themes which, over many years Emmanuel has returned to in his practice. These works are not dependent on ideas of place; they are not site-specific in that sense, for this is one element amongst many. In this short introduction to the paintings in this exhibition I will touch on a few recurring thematic in these poetic and rich works.



Two significant themes which run through this artist's practice are painting and the body and, related to this, an erosion of the boundary between nature and culture. In order to understand and explore these recurring themes it is important to consider the process. Emmanuel applies the paint to the fleece using domestic hairstyling equipment such as brushes, scissors, combs, gel and hairspray. He then works and reworks the paint into this dense, animal material with these man-made hairdressing tools. The resulting paintings bear the marks of these implements; the surface is combed, backcombed, parted, cut, bunched, and tied. Objects used to care for human hair seem absurdly inappropriate for dealing with this tangled, raw fleece but eventually they are formed. Some are fluffed up – sculpted – while others are flattened. The materials used to make these works are of, or relate to, the animal and human body. The paint is applied to the surface of an animal, whilst the comb's and brushes used to

apply the paint take us back to the human body. By bringing together in this way both animal and human and challenging neat distinctions between nature and culture, Emmanuel gives these works an unsettling psychological charge.

Using something other than paint brushes to make paintings is an important recurrence in Emmanuel's working process. In earlier works such as the series *New Painting* (2000) he painted using his body to smear, daub and mark the surface. In other pieces paint becomes part of a live performance or video work. In *Psycho* (2004), the artist lies on his back on the floor with a mouthful of oil paints. A psychiatrist sits on a chair nearby asking a set list of questions, the same questions one would be asked if you were to undergo a psychiatric health test. As he is questioned paint oozes from his mouth, occasionally choking him as he attempts to answer. In *Psycho*, Emmanuel questions the role of the painter in contemporary



culture and also interrogates the very substance of paint itself, what exactly is it? In *Psycho* paint becomes a bodily fluid oozing from the artist's mouth.

Ultimately these new works, like all his works, are paintings; deconstructed, and messed up, but never-the-less beautiful paintings. There are tensions held within and between each work as they seem to shift from one thing to another. The thick, toxic green sludge in *Penrhiwllwythau* (2010) appears like a surreal muddy landslide; the gently backcombed, fluffy surface of *Y Gelli* (2009) like lichen, moss or an aerial photograph of trees. Works shift from landscape paintings to intimate

portraits of the body. Perhaps the most arresting bodily reference is held in the little red painting *Wern Ddu* (2009). It's flattened, parted surface like female pubic hair, reminiscent of the female forms found in trees and photographed by Anna Mendieta or the anatomical references in Anish Kapoor's sculptures, its visceral red the colour of blood. Its flatness however is more akin to abstract painting, more like a Barnett Newman zip made in fleece. Another red painting *Cefn Coed Isaf* (2010) is combed and cut like a sharp fringe, while *Maes y Wern* (2009) struggles to turn itself from painting back into animal, small ear-like shapes protruding from its matted grey, pink flecked surface.

In Paul Emmanuel's *Fleece Paintings*, tensions between earth and body, nature and culture, human and animal proliferate as the references in the works shift from macro landscape to visceral abstraction in his living, breathing paintings.

Karen MacKinnon Exhibitions Officer, Glynn Vivian Art Gallery



paul emmanuel fleece painting

Oriel Myrddin Gallery · 8 Ionawr – 26 Chwefror 2011

Corff o waith mwyaf diweddar Paul Emmanuel, *Fleece Paintings*, yw'r union beth hynny – cnu defaid cywrain y mae'r artist wedi rhoi amryw o baentiadau olew arno.

Cnu lleol ydyw o ffermydd sy'n amgylchynu stiwdio'r artist ym Mannau Brycheiniog, ac mae'r gweithiau eu hunain wedi cael eu henwi ar ôl pob un o'r ffermydd hyn. Deilliodd yr ysbrydoliaeth ar gyfer y gwaith hwn o'r artist yn sylwi ar sgrapiau o gnu matiog yn y glaswellt, wedi'i ddal yn y ffens weiren bigog sy'n amgylchynu'r caeau o amgylch y fferm lle mae'n byw a'n gweithio. Mae'r peintiadau hyn hefyd yn denu ysbrydoliaeth o'r defnydd o farcwyr defaid; lliwiau gwahanol wedi'u rhoi yn uniongyrchol ar gefn yr anifeiliaid fel ffordd o bortreadu un praidd o un arall.

Mae Emmanuel yn cael ei ysbrydoli hefyd, gan ddulliau gweithio a bywydau'r gymuned ffermio. Trwy ei waith, mae'n ystyried rôl yr artist sy'n byw a'n gweithio yn y gymuned hon. Fodd bynnag, er y gallem ddehongli *Fleece Paintings* fel ymatebion i le penodol a'i dirwedd, byddai hyn yn gwadu'r tensiynau cymhleth sydd yn y paentiadau hyn ac yn wir, y themâu y mae Emmanuel, dros nifer o flynyddoedd, wedi'u dychwelyd i'w waith. Nid yw'r gweithiau hyn yn ddibynnol ar syniadau o le; nid ydynt yn safle-benodol yn yr ystyr hynny, gan mai dyma un elfen ymysg llawer. Yn y cyflwyniad byr hwn i'r paentiadau yn yr arddangosfa hon, byddaf yn cyffwrdd ar rai themâu sy'n cael eu hailadrodd yn y gweithiau barddonol a chyfoethog hyn.



Dwy thema bwysig sy'n rhedeg trwy arfer yr artist yw peintio a'r corff ac, yn gysylltiedig â hyn, erydiad o'r ffin rhwng natur a diwylliant. Er mwyn deall ac archwilio'r themâu hyn sy'n cael eu haildrodd, mae'n bwysig ystyried y broses. Mae Emmanuel yn rhoi'r paent ar y cnu trwy ddefnyddio offer steilio gwallt domestig fel brwshis, sisyrnau, cribau, gel a chwistrell gwallt. Yna, mae'n gweithio a'n ail-weithio'r paent i'r croen trwm, anifail hwn, gyda'r teclynnau gwneud gwallt hyn a wnaethpwyd â llaw. Gellir gweld marciau'r offer hyn ar y peintiadau terfynol; mae'r arwyneb wedi cael ei gribo, ei gribo nôl, ei rannu, ei dorri, ei gynnull a'i glymu. Mae gwrthrychau sy'n cael eu defnyddio i ofalu am wallt dynol yn ymddangos yn afresymol o anaddas ar gyfer delio gyda'r cnu clymog, crai hwn, ond yn y pen draw, maen nhw'n cael eu ffurfio. Mae rhai yn fflwffog, wedi'u cerflunio – tra bo eraill yn cael eu fflatio. Mae'r deunyddiau hyn sy'n cael eu defnyddio i wneud y gweithiau hyn yn, neu'n berthnasol, i gorff anifail a chorff dynol. Mae'r paent yn cael ei roi ar arwyneb anifail, ac mae'r crib a'r brwshis

yn mynd a ni'n ôl i'r corff dynol. Trwy ddod ag anifail a phobl at ei gilydd fel hyn a herio gwahaniaethau rhwng natur a diwylliant, mae Emmanuel yn rhoi gwefr seicolegol gynhyrfus i'r gweithiau hyn.

Mae defnyddio rhywbeth ar wahân i frwshis paent i wneud paentiadau yn rhywbeth pwysig sy'n cael ei ailadrodd ym mhroses gweithio Emmanuel. Yn ei weithiau cynharach, fel y gyfres *New Painting* (2000), peintiodd gan ddefnyddio ei gorff i rwbio, dwbio a marcio'r arwyneb. Mewn darnau eraill, mae paent yn dod yn rhan o berfformiad byw neu waith fideo. Yn *Psycho* (2004), mae'r artist yn gorwedd ar ei gefn ar y llawr gyda llond ceg o baentiadau olew. Mae seiciatrydd yn eistedd ar gadair gyfagos a'n gofyn cyfres o gwestiynau, yr un cwestiynau fyddai'n cael eu gofyn i rywun pe byddech yn mynd am brawf iechyd seiciatrig. Wrth iddo gael ei gwestiynu, mae paent yn llifo o'i geg, a'n gwneud iddo dagu ar brydau wrth iddo geisio ateb. Yn *Psycho*, mae Emmanuel yn cwestiynu rôl y peintiwr mewn diwylliant cyfoes, a'n cwestiynu



hefyd, union sylwedd paent ei hun, beth yw ef? Yn *Psycho*, mae paent yn dod yn hylif corfforol sy'n llifo o geg yr artist.

Yn y pen draw, paentiadau, fel ei holl weithiau, yw'r gweithiau newydd hyn; paentiadau wedi'u dad-adeiladu'n flêr, ond yn rhai prydferth er hynny. Mae tensiynau ymhob, a rhwng, pob darn o waith, wrth iddynt ymddangos fel eu bod nhw'n symud o un peth i'r llall. Mae'r slwtsh gwyrdd tew a gwenwynig yn *Penrhiwllwythau* (2010) yn ymddangos fel tirlithriad swrrealaid, mwdlyd; yr arwyneb fflwffog, wedi'i gribo'n ôl yn ofalus yn *Y Gelli* (2009) fel cen, mwsogl, neu lun o goed o'r awyr. Mae gweithiau'n symud o beintiadau tirlun i bortreadau o'r corff. Efallai y gwelir y

cyfeiriad corfforol mwyaf trawiadol yn y paentiad bach coch *Wern Ddu* (2009), gyda'i arwyneb fflat, rhanedig fel blew cedor dynes, sy'n atgof o'r ffurfiau benywaidd sydd i'w gweld mewn coed ac a ffotograffwyd gan Anna Mendieta, neu'r cyfeiriadau anatomegol yng ngherfluniau Anish Kapoor, gyda'r coch ymysgarol fel gwaed. Mae ei wastadrwydd, fodd bynnag, yn fwy tebyg i baentiad haniaethol, yn debycach i sip Barnett Newman a wnaethpwyd mewn cnu. Mae paentiad coch arall wedi cael ei gribo a'i dorri fel rhimyn miniog, sef *Cefn Coed Isaf* (2010), tra bod *Maes y Wern* (2009) yn ymdrechu i droi ei hun o baentiad yn ôl i anifail – siapiau bychain, tebyg i glustiau, yn ymwithio allan o'i arwyneb llwyd, matiog, gyda sbotiau pinc.

Yn *Fleece Paintings* gan Paul Emmanuel, mae tensiynau rhwng daear a chorff, natur a diwylliant, dyn ac anifail yn cynyddu wrth i'r cyfeiriadau yn y gweithiau newid o dirwedd macro i haniaeth ymysgarol yn ei baentiadau byw, sy'n anadlu.

Karen MacKinnon Swyddog Arddangosfeydd, Oriol Gelf Glynn Vivian



Images / Delweddau

Pentre, oil paint and hair laquer on Texel fleece, 2009

Penrhiwllwythau, oil paint on Balwen fleece, 2010

Pant y Wal, oil paint and hair laquer on Balwen fleece, 2010

Nantyyffin, oil paint and hair laquer on Texel fleece, 2009

Cefn Coed Isaf, oil paint and hair gel on Balwen fleece, 2010

Y Gelli, oil paint on Balwen fleece, 2009

Y Dderi, oil paint and hair gel on Balwen fleece, 2009

Oriol
Myrddin



CEIRIEN CYMRU
COUNCIL OF WRITERS
THE WRITERS OF WALES
LLEWELLYN IORWEDD

Mudiad yr
Llywodraeth Cymru
Supported by
HM Awdurdod Gogledd



